Amdani! Conwy

# LLAWLYFR CEFNOGI **GWIRFODDOLWYR**

DIWYLLIANT CONWY CULTURE

CONWY CYNGOR BWRDEISTREF SIROL COUNTY BOROUGH COUNCIL

SPIRIT OF 2012 INVESTING IN HAPPINESS

Disability Arts Cymru Creu Celf

CVSC www.cvsc.org.uk

# CYNNWYS

BETH YW AMDANI CONWY? -T.3

SUT I DDOD YN GEFNOGWR GWIRFODDOLWYR - T.6

CYTUNDEB CEFNOGWYR AMDANI! CONWY - T.8

POLISÏAU - T.10

CANLLAWIAU DISGRIFIAD SWYDD GWIRFODDOLWR - T.11

CANOLBWYNT ADNODDAU -T.14

CWRDD Â'R TÎM -T.15

# BETH YW AMDANI! CONWY?

Prosiect newydd yw Amdani! Conwy! sy’n agor drysau pobl leol at gyfleoedd i wirfoddoli a bod yn llysgenhadon ar gyfer arlwy diwylliannol cyffrous Conwy.

Mae Amdani! Conwy yn cefnogi lleoliadau diwylliannol a threfnwyr digwyddiadau ac yn gweithio gyda chymunedau i wneud diwylliant, treftadaeth a’r celfyddydau yn hwyl, hygyrch ac yn gynhwysol.

Fel sefydliad sy’n cefnogi gwirfoddolwyr, byddwch yn gallu hyrwyddo eich cyfleoedd gwirfoddoli drwy Amdani! Conwy, a recriwtio gwirfoddolwyr newydd sy’n frwd am ddiwylliant yng Nghonwy.

Caiff pob gwirfoddolwr eu cefnogi gan dîm Amdani! Conwy. Byddwn yn:

- Trefnu a darparu hyfforddiant a chyfarfod sefydlu ar gyfer gwirfoddolwyr
- Ad-dalu treuliau teithio rhesymol
- Talu costau cynhaliaeth ar gyfer sifftiau sy'n para mwy na 4 awr
- Galluogi i bobl anabl, b/Byddar a niwrowahanol gael mynediad at gyfleoedd gwirfoddoli.

# GWIRFODDOLWYR AMDANI! CONWY -

## Wynebau Cyfeillgar

Mae gwirfoddolwyr Amdani! Conwy yn rhan gydnabyddedig a dibynadwy o gymuned Conwy, a all gynnig croeso cynnes i ymwelwyr i'ch digwyddiadau a'ch lleoliadau.

## Rhwydwaith Cymunedol

Yn cynnwys gwirfoddolwyr gyda phresenoldeb ar draws rhwydwaith Diwylliannol Conwy, mae Amdani! Conwy yn gyfle i hyrwyddo a rhannu eich gwaith gyda chynulleidfaoedd newydd.

## Dysgwyr Gweithredol


Byddwn yn sefydlu ac yn hyfforddi pob gweithiwr newydd i'w paratoi a meithrin eu sgiliau i fod yn wirfoddolwyr Amdani! Conwy. Byddan nhw'n barod i ddysgu pethau newydd a gweithio gyda chi i ddatblygu eu sgiliau.

## Cefnogir Gennym Ni

Ni fydd ein gwirfoddolwyr byth ar eu colled wrth fanteisio ar gyfleoedd. Byddwn yn darparu cefnogaeth er mwyn rhoi cyfle i bawb.

# MAE AMDANI! CONWY YN RHAN O STRATEGAETH DDIWYLLIANNOL CREU CONWY

Mae Amdani! Conwy yn brosiect blaenllaw sy'n gweithio i wneud diwylliant yn rhan o fywyd bob dydd i bawb yn sir Conwy. Yn Amdani! Conwy, rydym yn credu mewn diffinio diwylliant yn amrywiol ac eang – mae ar gyfer pob un ohonom.




**Gallwch ddarganfod mwy am CREU CONWY – CREU'R SBARDUN - Strategaeth Ddiwylliannol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy 2021 - 2026 drwy ddilyn y Côd QR yma.**

# SUT I DDOD YN GEFNOGWR GWIRFODDOLWYR

**I ddod yn gefnogwr gwirfoddolwyr, dilynwch y camau syml hyn.**

## CAM 1

**LLENWCH FFURFLEN SYML**

Defnyddiwch ein ffurflen syml i ddisgrifio eich cyfle gwirfoddoli a'i hanfon atom gydag o leiaf mis o rybudd.

## CAM 2

**LLOFNODWCH GYTUNDEB**

Bydd cefnogwyr gwirfoddolwyr yn cael cyfarfod gyda thîm Amdani! Conwy er mwyn adolygu a llofnodi eu cytundeb cefnogwr gwirfoddolwyr.

## CAM 3

**RYDYM YN HYRWYDDO CYFLEOEDD**

Rydym yn hyrwyddo'r cyfle i'n carfan o wirfoddolwyr ac maent yn cofrestru gan ddefnyddio platfform Gwirfoddoli Cymru.

## CAM 4

**COFRESTRU GWIRFODDOLWYR!**

Mae porth Gwirfoddoli Cymru yn ein galluogi i reoli eich cyfle a rhannu'r gofrestr pan ddaw'r amser.

# SUT FYDDWN NI'N CYDWEITHIO?

**Unwaith y bydd eich cyfle yn fyw ac y gall gwirfoddolwyr**
**Amdani! Conwy gofrestru, beth sy'n dod nesaf...?**

## CAM 5

**COFRESTRAU**
Byddwch yn gallu gweld pwy sydd wedi cofrestru a beth yw eu hanghenion mynediad. Byddwch yn trin y wybodaeth hon yn ofalus ac yn ei rhannu gyda staff perthnasol yn unig.

## CAM 6

**ANGHENION MYNEDIAD**
Bydd aelod o'ch tîm yn adolygu anghenion mynediad y gwirfoddolwr ac yn gwneud addasiadau rhesymol cyn y sifft gwirfoddoli.

## CAM 7

**BRIFF**
Ar ddechrau'r sifft, bydd y cefnogwr yn cynnal sesiwn friffio ac yn dweud wrth wirfoddolwyr beth sydd angen iddynt ei wybod.

## CAM 8

**DYCHWELYD COFRESTRAU**
Ar ddiwedd y sifft dychwelwch y gofrestr atom yn ddigidol a dinistriwch unrhyw gopïau caled sydd gennych.

# CYTUNDEB CEFNOGWYR AMDANI! CONWY

Mae Amdani! Conwy yn rhannu ymrwymiad gyda chi - y Cefnogwr Gwirfoddoli - i sicrhau bod gwirfoddolwyr yn ddiogel, yn cael profiad cadarnhaol ac yn cael eu gwerthfawrogi. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy gyfathrebu effeithiol gyda'r tîm Amdani! Conwy a drwy sicrhau bod y polisïau priodol ar waith.

## Mae Amdani! Conwy yn ymrwymo i:

- Gynnal cyswllt rhyngoch chi a'n carfan o wirfoddolwyr.
- Hyrwyddo eich cyfleoedd i’n gwirfoddolwyr.
- Hyfforddi ein gwirfoddolwyr ym maes Iechyd a Diogelwch, Diogelu ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd.
- Gweinyddu cofrestrau gwirfoddolwyr trwy borth Gwirfoddoli Cymru.
- Darparu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac yswiriant cyflogwr sy'n diogelu gwirfoddolwyr.
- Darparu Hyfforddiant Cydraddoldeb Anabledd am ddim i wirfoddolwyr.
- Gweithio gyda chi i gefnogi gwirfoddolwyr anabl, d/Byddar a niwrowahanol.
- Ad-dalu treuliau gwirfoddoli rhesymol.
- Rhoi cit brand Amdani! Conwy i wirfoddolwyr.

# Fel Cefnogwr Gwirfoddolwyr, byddwch chi'n cytuno i'r canlynol:

- Trin pob gwirfoddolwr â pharch ac urddas.
- Sicrhau na chaiff gwirfoddolwr ei adael ar ei ben ei hun.
- Rhoi briff i wirfoddolwyr ar ddechrau ei sifft.
- Gwneud gwirfoddolwyr yn ymwybodol o'ch gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch a gadael mewn argyfwng.
- Sicrhau bod atebolrwydd cyhoeddus am eich lleoliad neu ddigwyddiad.
- Darparu gwybodaeth onest am y rôl wirfoddol yr ydych yn ei chynnig.
- Trin cofrestrau a gwybodaeth bersonol ein gwirfoddolwyr yn ddiogel ac yn ofalus.
- Cefnogi a rheoli gwirfoddolwyr ar y safle gydag aelod cyflogedig o staff.
- Rhoi gwybod i Amdani! Conwy am unrhyw newidiadau y gall effeithio ar rôl y gwirfoddolwr.
- Sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael egwyl i orffwys yn rheolaidd.
- Rhoi gwybod i ni cyn gynted â phosib os oes problem neu ddigwyddiad yn ymwneud ag un o'n gwirfoddolwyr.
- Ymarfer Model Cymdeithasol o Anabledd. Mae hyn yn cynnwys:
  - Cymryd rhan mewn Hyfforddiant Cydraddoldeb Anabledd.
  - Rhoi gwybodaeth am leoliad/digwyddiad i ni ei rhannu gyda'n gwirfoddolwyr.
  - Adolygu anghenion mynediad gwirfoddolwyr cyn eu sifft a gwneud addasiadau rhesymol.
- Sicrhau bod swyddog cymorth cyntaf hyfforddedig a chitiau meddygol ar gael yn y lleoliad gwirfoddoli.

# POLISÏAU

Gallwch ddod o hyd i'n holl bolisïau ar dudalen we Amdani! Conwy yn: https://bit.ly/3OisbKh

Yno, fe ddowch o hyd i'n:

- Polisi Gwirfoddolwyr
- Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Polisi Diogelu
- Polisi GDPR
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Polisi Ad-dalu Treuliau
- Polisi Cwynion

Defnyddiwch y Côd QR i ddod o hyd i'n polisïau.

# RÔL GWIRFODDOLWR - DISGRIFIAD - CANLLAW

Mae'r templed hwn yn ganllaw i'ch helpu i ddweud popeth y mae angen i ni ei wybod.

| | |
|---|---|
| **Teitl y digwyddiad / Enw'r cyfle gwirfoddoli** | Teitl eich digwyddiad fel y caiff ei gyhoeddi'n gyhoeddus.<br><br>Os nad yw'n ddigwyddiad, rhowch enw eich Cyfle Gwirfoddoli. Er enghraifft: Gwirfoddolwr Archifau Conwy. |
| **Amlinelliad o'r cyfle** | Disgrifiwch y cyfle gwirfoddoli ac eglurwch pa dasgau y disgwylir iddynt eu gwneud. Gallwch ddweud hyn wrthym mewn pwyntiau bwled. Dywedwch wrthym a yw'r cyfle hwn yn digwydd unwaith neu'n digwydd dro ar ôl tro; os felly pa mor aml. |
| **Gofynion penodol** | Amlinellwch unrhyw ofynion penodol sy'n hanfodol ar gyfer y cyfle hwn. Er enghraifft: Siaradwr Cymraeg, defnyddiwr Iaith Arwyddion Prydain, cerdded am bellter hir.<br><br>(Sylwer: Nid yw Gwirfoddolwyr Amdani! Conwy yn cael eu gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn awtomatig pan gânt eu recriwtio. Cyfeiriwch at y canolbwynt adnoddau am ragor o wybodaeth) |
| **Nifer y gwirfoddolwyr sydd eu hangen** | Rhowch gyfanswm y gwirfoddolwyr sydd eu hangen ar gyfer y cyfle hwn. |

| | |
|---|---|
| **Lleoliad** | Ym mha gyfeiriad neu leoliad y bydd rôl y gwirfoddolwr? Ble bydd angen iddyn nhw fynd ar ôl cyrraedd? |
| **Amseroedd / Dyddiadau** | Dywedwch wrthym faint o'r gloch y mae angen gwirfoddolwyr arnoch a pha mor hir fydd sifftiau.<br><br>(Sylwer bod yn rhaid i sifftiau gynnwys 1 egwyl. Rhaid darparu cinio os bydd cyfleoedd yn para dros 4 awr) |
| **Manylion Cyswllt** | Bydd hwn yn bwynt cyswllt i’r gwirfoddolwyr gael gwybodaeth a chefnogaeth wrth wneud eu rôl wirfoddoli. Cofiwch gynnwys: Enw, Teitl y swydd, Rhif ffôn a Chyfeiriad e-bost. |
| **Delweddau / Fideos** | Dylech gynnwys unrhyw ddelweddau neu fideos i'n cefnogi i hyrwyddo'r rôl hon.<br>Gallai hyn fod yn logo, yn ddelwedd o’ch lleoliad neu’n ddelwedd o ddigwyddiad arall sy’n rhoi syniad i wirfoddolwyr o’r hyn y byddent yn cymryd rhan ynddo. |
| **Mynediad** | Dywedwch wrthym am unrhyw wybodaeth mynediad sy’n gysylltiedig â’r cyfle hwn a'ch lleoliad. A oes mynediad i lifft? A yw’n addas ar gyfer cadeiriau olwyn? A oes toiledau hygyrch? A oes ysgogiad synhwyraidd e.e. synau uchel, goleuadau'n fflachio, arogleuon?<br>Cysylltwch â'n Swyddog Mynediad a Chynhwysiant, David i gael mwy o gefnogaeth - david@dacymru.com |

# TEMPLED DISGRIFIAD O RÔL GWIRFODDOLWR

**Teitl y digwyddiad / Enw'r cyfle gwirfoddoli:**

**Amlinelliad o'r rôl:**

**Nifer y gwirfoddolwyr sydd eu hangen:**

**Gofynion penodol:**

**Lleoliad:**

**Dyddiad/Amser:**

**Manylion Cyswllt:**

**Mynediad:**

Gallwch lawrlwytho'r ffurflen templed yma.

Cofiwch gynnwys unrhyw ddelweddau / fideos.

# CANOLBWYNT ADNODDAU

Mae gan ein gwefan lawer o adnoddau a thempledi defnyddiol i'ch helpu i ddylunio'ch cyfleoedd, gan sicrhau bod y broses o wneud cais am ein gwirfoddolwyr yn gynt ac yn haws.

Ewch i'n dudalen we yn gwe https://bit.ly/3oa0IzS, lle gallwch ddarllen a lawrlwytho'r canlynol:

- Templed Disgrifiad o Rôl Gwirfoddolwr (Copi i'w Argraffu)
- Templed Disgrifiad o Rôl Gwirfoddolwr (Copi ar y We)
- Templed Asesiad Risg Gyffredinol
- Canllaw hygyrchedd
    - Model Cymdeithasol o Anabledd
    - Asesiad Risg Mynediad
    - Beth yw dogfen sy'n amlinellu eich anabledd neu anghenion mynediad?
    - Beth yw stori gymdeithasol?
- Canllaw y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Defnyddiwch y Côd QR
i ddod o hyd i'n canolbwynt adnoddau.

# CWRDD Â'R TÎM





## JASMINE PILLING

Rheolwr Rhaglen Gwirfoddolwyr

## DAVID CLEARY

Swyddog Mynediad a Chynhwysiant

### CYSYLLTWCH Â NI AR:

E-bost: Amdani@cvsc.org.uk
Ffôn: 07743932406

https://diwylliantconwy.com/explore-culture/creu-conwy/amdani-conwy

DIWYLLIANT CONWY CULTURE
CONWY CYNGOR BWRDEISTREF SIROL COUNTY BOROUGH COUNCIL
SPIRIT OF 2012 INVESTING IN HAPPINESS
Disability Arts Cymru Creu Celf
CVSC www.cvsc.org.uk